

# CAERDYDD

## EIN PRIFDDINAS GYSTADLEUOL

INVEST IN
CARDIFF
CYFOETHOGI
CAERDYDD

# PRIFDDINAS AR RADDFA DDYNOL



Bae Caerdydd

“Mae rhai dinasoedd wedi colli eu ffordd.
Maen nhw’n tyfu, ond a ydyn nhw’n gwneud cynnydd?
A sut maen nhw’n mesur llwyddiant?
Uwchlaw popeth, dylai prifddinasoedd ddiwallu anghenion eu pobl.
Felly, rydym ni’n mesur llwyddiant ar delerau dynol.
Byddwch chi’n teimlo’n rhan o’n prifddinas.
Prifddinas yr ydych chi’n perthyn iddi.
Prifddinas y gallwch deithio o’i hamgylch yn gyflym ac yn ddiogel.
Prifddinas sy’n rhoi mwy o amser i chi fwynhau gyda ffrindiau.
Prifddinas werdd, nid prifddinas lwyd.
Prifddinas gyda mwy o awyr nag adeiladau uchel.
Prifddinas sy’n dda i’r blaned.
Bydd busnesau’n teimlo’n gartrefol.
Bydd ymwelwyr yn dod i adnabod y ddinas yn gyflym, a bydd pobl Caerdydd yn awyddus i’ch adnabod chi.
Mae Caerdydd yn brifddinas i’w mwynhau, i lwyddo ynddi ac i deimlo’n rhan o’r ddynoliaeth ynddi.”



Credyd: Heavenly

# MAE CAERDYDD YN EICH CROESAWU CHI

“Un o’r dinasoedd mwyaf cystadleuol yn y DU”

## “Amgylchedd o safon byd i fusnesau”

Mae Caerdydd yn ddinas ar ei newydd wedd, ac rydym yn ddinas sy’n barod am fuddsoddiad.

Yn ôl nifer o fesuryddion ni yw’r ddinas sy’n tyfu gyflymaf yn y DU.

Gyda mwy na hanner y boblogaeth dan 35 mlwydd oed, mae Caerdydd yn ddinas ifanc a bywiog y rhagwelir y bydd ei phoblogaeth yn tyfu gan fwy na 20% dros y ddau ddegawd nesaf.

Mae gennym un o’r gweithluoedd mwyaf galluog yn y wlad, ac rydym yn aml yn dod i’r brig mewn cynghreiriau ansawdd bywyd.

Hefyd mae mwy na 20 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn yn cael eu denu i ddinas sydd wedi cynnal rhai o’r digwyddiadau mwyaf yn y byd, gan gynnwys Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr, pan gyflwynodd y ddinas sioe wefreiddiol i gynulleidfa fyd-eang o fwy nag un biliwn.

Mae ein prifddinas yn gartref i brifysgolion, sefydliadau diwylliannol a busnesau newydd creadigol, yn ogystal â chwmnïau, entrepreneuriaid ac arloeswyr mawr sydd i gyd ymysg y gorau yn y byd.

Mae datblygiadau a wnaed yn y ddinas yn ddiweddar wedi gweld clystyrau cystadleuol yn dod i’r amlwg yn y sectorau ariannol, creadigol, gwyddorau bywyd a gweithgynhyrchu uwch, gyda rhai o’r busnesau blaenllaw yn y DU yn dewis symud i Gaerdydd.

Ac fel prifddinas, mae gan y byd busnes Lywodraeth Cymru ar garreg ei ddrws, yn ogystal â llu o sefydliadau cenedlaethol a phencadlysoedd i ategu gweithgareddau.

Mae Caerdydd hefyd yn cael budd o fuddsoddiad parhaus yn ein seilwaith. Mae gan adfywiad y Sgwâr Canolog a’r ardal gyfagos y potensial i gynnal hyd at 30,000 o swyddi, a bydd y buddsoddiad o £1 biliwn ym Metro De Cymru, yn arwain at drenau amlach, mwy dibynadwy a chyflymach a fydd yn galw mewn mwy na 100 o orsafoedd ledled rhwydwaith sydd â Chaerdydd yn lleoliad craidd iddi. Mae’r seilwaith hanfodol hwn yn golygu bod Caerdydd yn y rheng flaen ymhlith dinasoedd y DU fel lleoliad i fuddsoddi ynddo.

Yn fyr, mae Caerdydd yn lle gwych i weithio ynddo, yn lle gwych i ymweld ag ef ac yn lle gwych i fuddsoddi ynddo.

Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar ddull gwaith Tîm Caerdydd, pan fo’r sector cyhoeddus a phreifat yn dod ynghyd i hybu

datblygiad y ddinas. Mae gennym enw da am gyflenwi projectau mawr yn brydlon, heb fod yn drech na’r gyllideb, a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gyflawni ein huchelgais ar gyfer economi ein dinas.



**Y Cynghorydd Huw Thomas,**
**Arweinydd,**
**Cyngor Caerdydd**

# MAE GENNYM GYSYLLTIADAU

“Lleoliad gwych i fusnesau”

# “Y Brifddinas agosaf i Lundain”

Llai na dwy awr oddi ar Lundain, gyda thrafnidiaeth a seilwaith digidol rhagorol, mae Caerdydd yn un o ddinasoedd mwyaf cystadleuol ac wedi eu cysylltu orau yn Ewrop.





**1.6M**
O BOBL O FEWN 45 MUNUD O WAITH CYMUDO I GAERDYDD

**45 MUN**

FFYNHONNELL: Cyngor Caerdydd / Google Maps

# “Mwy na 50 o hediadau uniongyrchol a mwy na 900 o gysylltiadau o Faes Awyr Caerdydd”

CAERDYDD YW UN O’R DINASOEDD MWYAF CYSYLLTIEDIG YN Y DU




MAE GAN **98.43%** O GARTREFI A BUSNESAU YN GALLU MANTEISIO AR FAND-EANG CYFLYM IOAWN

FFYNHONNELL: THINK BROADBAND

---


BYDD MODD TEITHIO O GAERDYDD I LUNDAIN MEWN **105 MUNUD** AR ÔL TRYDANEIDDIO

FFYNHONNELL: GWR



---

**4 MAES AWYR RHYNGWLADOL** O FEWN **140 MUNUD** O DEITHIO MEWN CAR



---

MAE PORTHLADD CAERDYDD YN CYFRANNU **£121 MILIWN** I’R ECONOMI LEOL BOB BLWYDDYN

FFYNHONNELL: ASSOCIATED BRITISH PORTS



## Ffyrdd

Mae Caerdydd ar draffordd yr M4, sy’n cysylltu’r ddinas a Llundain, de Lloegr a dinasoedd eraill yn Ne Cymru. Yn nodweddiadol, gellir teithio i Faes Awyr Heathrow mewn tua dwy awr. Mae traffyrdd yr M50 / M5 yn cysylltu Caerdydd â Chanolbarth a Gogledd Lloegr, ac mae Birmingham ond cwta dwy awr i ffwrdd.

## Rheilffyrdd

Mae gan Gaerdydd gysylltiadau gwych â gweddill y DU. Mae Gorsaf Caerdydd Canolog yn cynnig gwasanaeth dwywaith yr awr i ganol Llundain a fydd yn golygu amser teithio o 1 awr 45 munud yn dilyn trydaneiddio yn 2019.

Mae gan Gaerdydd un o’r rhwydweithiau rheilffordd trefol mwyaf yn y DU y tu allan i Lundain, gydag 89 o orsafoedd yn cysylltu’r ddinas a’i Phrifddinas-ranbarth. Mae’r rhwydwaith wrthi’n cael ei huwchraddio ar hyn o bryd gydag £1 biliwn o fuddsoddiad i drydaneiddio’r seilwaith rheilffordd ledled De Cymru i ddod â’r Brifddinas-ranbarth hyd yn oed yn nes. Bydd mwy na hanner cyfanswm poblogaeth Cymru yn gallu cymudo ar y trên i ddinas Caerdydd mewn llai nag awr.

Mae gan y ddinas derminws cludiant Ewropeaidd hefyd, a hwn yw’r prif ddepo cludiant rheilffordd yng Nghymru ar gyfer marchnadoedd yn Ewrop a ledled y byd.

| | Ar y ffyrdd (theaa.com) | Ar y rheilffordd (thetrainline.com) |
|---|---|---|
| Canol Llundain | 144 milltir<br>2awr 26 munud | 1awr 45 ar ôl trydaneiddio<br>48 o drenau y dydd |
| Birmingham | 112 milltir<br>2awr | 2awr<br>72 o drenau y dydd |
| Bryste | 41 milltir<br>55 munud | 48 munud<br>72 o drenau y dydd |
| Manceinion | 183 milltir<br>3awr 26 munud | 3awr 10munud<br>48 o drenau y dydd |

## Meysydd Awyr


Mae Maes Awyr Caerdydd, sydd dim ond 12 milltir o ganol y ddinas, yn cynnig mwy na 50 o hediadau uniongyrchol i ddinasoedd ledled y DU, Ewrop ac i Doha, gyda mwy na 900 o gysylltiadau i gyrchfannau ledled y byd drwy hediadau rheolaidd drwy Schiphol.


O fewn 140 munud waith gyrru mae Meysydd Awyr Bryste, Birmingham a Heathrow hefyd yn gyfleus.




## Porthladd Caerdydd

Mae gan Borthladd Caerdydd arbenigedd yn y maes o drin cynwysyddion, dur, cynnyrch coed a llwythi mawr. Gyda chysylltiadau da i’r rhwydwaith trenau, a chyda traffordd yr M4 wrthlaw, mae’r porthladd yn trin mwy na 1.7 miliwn o dunelli bob blwyddyn, gan gynnig atebion storio ac offer trin nwyddau arbenigol pwrpasol i gwsmeriaid.




“£1 biliwn o fuddsoddiad ar waith i wella’r rhwydwaith Metro”

# EIN PRIFDDINAS WAHANOL



"Un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymlaf yn y DU, gyda nifer y swyddi'n cynyddu'n gyflymach nag unrhyw un o'r Dinasoedd Craidd"


Stadiwm Principality

CAERDYDD YW'R **DDINAS GRAIDD ORAU YN Y DU** O RAN EI HAPÊL I FUDDSODDWYR



FFYNHONNELL: COLLIERS INTERNATIONAL SEARCH FOR VALUE & REGIONAL RELATIVITY, GAEAF 2017

AMCANESTYNIAD O DWF Y BOBLOGAETH YN YSTOD YR 20 MLYNEDD NESAF 2014 - 2034






FFYNHONNELL: LLYWODRAETH CYMRU

**£3.5 BILIWN** O FUDDSODDIAD YN Y BRIFDDINAS-RANBARTH



**20+ MILIWN**





O YMWELWYR BOB BLWYDDYN I GAERDYDD SY'N GWARIO £1 BILIWN

FFYNHONNELL: DELOITTE 2017

Y SAFON BYW GORAU YMHLITH UNRHYW DDINAS GRAIDD YN Y DU



FFYNHONNELL: EUROPEAN COMMISSION QUALITY OF LIFE IN EUROPEAN CITIES 2015

## "Rydym yn un o'r dinasoedd sy'n perfformio orau yn y DU"

Fel prifddinas, Caerdydd yw canolfan fasnachol, ddiwylliannol a manwerthu Cymru a chanolbwynt yr holl weithgarwch busnes.

Gan mai hon yw'r ddinas y rhagamcanir a fydd yn tyfu gyflymaf ymhlith y deg o Ddinasoedd Craidd yn y DU dros y ddau ddegawd nesaf, ategir twf y ddinas gan ei gweithlu o raddedigion, hygyrchedd, prifysgolion blaenllaw a chostau cystadleuol cyflogau ac eiddo.

Mae cwmnïau sy'n buddsoddi yng Nghaerdydd yn cael budd o'r Brifddinas-ranbarth ehangach gyda'i phoblogaeth o 1.5 miliwn y rhagamcanir y bydd yn tyfu gan fwy na 20% dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae Caerdydd yn ddinas amrywiol, dalentog ac ifanc, gyda mwy na 70,000 yn mynychu ei thair prifysgol. Mae 57% o'n gweithlu wedi'u cymhwyso hyd at lefel gradd (NVQ 4+) sy'n golygu ein bod ymhlith un o'r dinasoedd mwyaf galluog ym Mhrydain.


Yn ein dinas ceir sefydliadau chwaraeon a diwylliannol sydd gyda'r gorau yn y byd ac mae gan Gaerdydd enw da fel cyrchfan o'r radd gyntaf ar gyfer hamdden, diwylliant, manwerthu a busnes. Mae'r ddinas eisoes wedi cynnal Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA, Cwpan Rygbi'r Byd, Marathon y Byd IAAF, Râs Fôr Volvo, gemau prawf y Lludw ac Uwchgynhadledd NATO.

Fel sy'n briodol i brifddinas, mae Caerdydd yn llawn o'r holl gyfleusterau, sefydliadau a chyfleoedd y byddech yn eu disgwyl.

A hithau'n gartref i Lywodraeth Cymru, mae buddsoddwyr yn y ddinas yn gallu manteisio ar y cyfle unigryw i gysylltu ag arweinwyr llywodraeth genedlaethol a llywodraeth y ddinas yn ogystal â dull 'Tîm Caerdydd' o weithio, sy'n golygu bod modd gwneud penderfyniadau i gefnogi buddsoddiad a datblygiad yn gyflym.

Ar ben hyn i gyd, mae Caerdydd yn brifddinas sy'n cynnig ffordd o fyw sy'n galluogi ei drigolion i fwynhau bywyd i'r eithaf. Beth bynnag mynd â'ch bryd, rydych yn sicr o ddod o hyd iddo yn ein dinas brydferth!

# DONIAU CAERDYDD



“Gweithlu gyda lefel addysg eithriadol o uchel a chostau llafur isel”

MAE **57%** O'R GWEITHLU YNG NGHAERDYDD YN MEDDU AR GYMHWYSTER GRADD (NVQ4+)

FFYNHONNELL: NOMIS 2018

MAE **52%** O'R GWEITHLU YN CAEL EU CYFLOGI MEWN SWYDDI PROFFESIYNOL, TECHNEGOL NEU REOLI

FFYNHONNELL: NOMIS ANNUAL POPULATION SURVEY 2017

**AR FRIG RHESTR DINASOEDD CRAIDD Y DU** YM MYNEGAI CYSTADLEURWYDD DONIAU BYD-EANG 2018

FFYNHONNELL: INSEAD

MAE **69%** O'R BOBLOGAETH CAERDYDD O OEDRAN GWEITHIO

FFYNHONNELL: NOMIS

MAE **35%** O RADDEDIGION YN DAL YNG NGHYMRU 10 MLYNEDD AR ÔL GRADDIO


FFYNHONNELL: PRIFYSGOL CAERDYDD

## "Mae 70,000 o fyfyrwyr yn astudio yng Nghaerdydd"

I gystadlu yn dda yn yr economi fyd-eang sydd ohoni, mae busnesau angen gweithlu galluog, hyblyg a dibynadwy. Yn ein dinas fe gewch weithlu ifanc gydag amrywiaeth o sgiliau, talent, cymhelliant a ffyddlondeb.

Gyda 69% o boblogaeth Caerdydd o oedran gweithio, a bron un miliwn o bobl o oedran gweithio yn Mhrifddinas-ranbarth y ddinas, mae gan ein gweithlu ni sgôr uchel ar nifer o ddangosyddion allweddol – mae lefelau addysg yn eithriadol uchel, mae costau llafur yn sylweddol is na llawer o ddinasoedd craidd eraill yn y DU ac mae ein gweithlu yn llawer iau na chyfartaledd y DU gyda chanran uwch o weithwyr yn y grŵp oedran 20-34.

**Pyramid Poblogaeth Caerdydd 2016**




FFYNHONNELL: SYG Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn wedi'u hadolygu 2016

Mae Caerdydd yn cael budd o un o'r nifer mwyaf o graddedigion ymhlith unrhyw weithlu yn y DU gyda 57% o'r gweithlu yn meddu ar gymhwyster ar lefel NVQ4 neu uwch, a mwy na un rhan o dair o raddedigion y ddinas yn dewis aros a gweithio yng Nghymru yn yr hirdymor.

O ran boddhad cyflogeion, mae Caerdydd ymhlith y 10 uchaf yn rhestr cyflogeion hapusaf yn y DU gyda staff sydd yn hynod foddhaus neu'n foddhaus dros ben yn eu swyddi (Work Satisfaction Survey 2016). O'i gymharu gyda De-ddwyrain Lloegr, mae gweithwyr Caerdydd yn elwa ar rym gwario uwch, gyda chostau byw is, yn ogystal â chostau tai a rhent is.

Am fwy na 200 mlynedd mae Caerdydd wedi croesawu gweithwyr o bob rhan o'r byd. Heddiw, mae pobl o fwy na chant o genhedloedd yn byw yn y ddinas, gyda sgiliau ieithyddol eang. Mae Caerdydd hefyd yn gyrchfan boblogaidd i fyfyrwyr rhyngwladol, gyda mwy na chwarter o fyfyrwyr y ddinas yn hanu o'r tu allan i'r DU, ac mae gan gwmnïau yn y Brifddinas-ranbarth brofiad helaeth o recriwtio gweithwyr gydag ystod o sgiliau ieithyddol. Dengys cyfrifiad 2011, yn ogystal â'r Saesneg a'r Gymraeg, fod trigolion Caerdydd yn ystyried nifer o ieithoedd eraill yn brif iaith iddynt:

- Ffrangeg, Sbaeneg, Pwyleg ac ieithoedd Ewropeaidd eraill: 8,700
- Arabeg ac ieithoedd Asiaidd eraill: 16,000

(Ffynhonnell: Proffil Marchnad Lafur NOMIS 2017)

# MAE EIN DINAS YN GWEITHIO'N GALED


"Aml-dalentog, aml-ieithog, ifanc, brwdfrydig ac yn edrych tua'r dyfodol"

# Cronfa dalentau ddofn

YN 2016 MWYNHAODD GAERDYDD GYFRADD TWF **GWERTH YCHWANEGOL CRYNSWTH** UWCH Y PEN O'I GYMHARU Â GWEDDILL Y DU – 5.7% O'I GYMHARU Â 3.7%

FFYNHONNELL: SYG RHAG 2017

PRIF SECTORAU GALWEDIGAETHOL




FFYNHONNELL: SYG AROLWG BLYNYDDOL O'R BOBLOGAETH 2018

MAE MWY NA **32,000** O FENTRAU YNG NGHAERDYDD

FFYNHONNELL: LLYWODRAETH CYMRU 2018

Mae economi amrywiol Caerdydd ymhlith y mwyaf cystadleuol yn Ninasoedd Craidd y DU. Disodlwyd diwydiant trwm y gorffennol gan sectorau ffyniannus a sbardunir gan wasanaeth a gwybodaeth ac mae'r ddinas wedi magu enw da am feddu ar gronfa dalentau ddofn a ategir gan y tair prifysgol yn y ddinas. Heddiw, cyflogir tua 211,000 o bobl yng Nghaerdydd a mwy na 630,000 o bobl yn y Brifddinas-ranbarth ehangach. Mae'r prif sectorau yn y ddinas sy'n meddu ar glystyrau gweithgaredd sylweddol ac chapasiti i dyfu yn cynnwys:

- Gwasanaethau Ariannol a Busnes
- Diwydiannau Creadigol a Digidol
- Gwyddorau Bywyd
- Gweithgynhyrchu Uwch

Mae economi'r ddinas yn dangos perfformiad cryf ar draws nifer o brif ddangosyddion, gyda thwf yn nifer y swyddi, diweithdra yn gollwng , nifer yr ymwelwyr ar gynnydd a thwf yn nifer y busnesau newydd.

Yn 2016, roedd Caerdydd yn gyfrifol am 17% o'r Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru, gyda'r gwerth hwnnw yn tyfu'n gyflymach (5.7%) na Chymru a'r DU yn ystod y flwyddyn (gweler isod). O ran Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen, roedd Caerdydd (£27,480) ar ganol y tabl perfformiad o'i gymharu â dinasoedd craidd eraill y DU, er bod cyfradd twf y ddinas dros y flwyddyn unwaith eto'n uwch na phob dinas arall.

Gwerth Crynswth Ychwanegol Dinasoedd Craidd y DU (Wedi eu meintoli) (£miliwn), 2016

| Ardal | 2016 | % Newid Blynyddol |
|---|---|---|
| **CAERDYDD** | **£9,933** | **5.7** |
| Manceinion | £18,172 | 5.4 |
| Bryste, Y Ddinas | £14,313 | 4.7 |
| Nottingham | £8,911 | 4.4 |
| Birmingham | £25,720 | 4.3 |
| Y Deyrnas Unedig | £1,747,647 | 3.7 |
| Dinas Glasgow | £20,371 | 3.5 |
| Leeds | £21,951 | 2.2 |
| Newcastle upon Tyne | £7,802 | 2.1 |
| Sheffield | £11,433 | 1.4 |
| Lerpwl | £11,334 | 0.6 |

Ffynhonnell: SYG (2016 ffigurau amodol)

Mae Cyfoethogi Caerdydd hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r economi leol ar gyfer y dyfodol drwy fenter cydweithio arloesol rhwng cyflogwyr, darparwyr dysgu a phobl ifanc o'r enw 'Addewid Caerdydd'.

Cyflogaeth fesul Sector 2016

| | Caerdydd | Prifddinas-ranbarth |
|---|---|---|
| Diwydiannau cynradd a chyfleustodau | 5,000 | 13,000 |
| Gweithgynhyrchu | 9,000 | 71,000 |
| Adeiladu | 8,000 | 33,000 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 29,000 | 96,000 |
| Trafnidiaeth a storio (gan gynnwys postio) | 5,000 | 18,000 |
| Llety a gwasanaethau bwyd | 17,000 | 47,000 |
| Cyllid, busnes a chyfathrebu | 60,000 | 126,000 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg a Iechyd | 67,000 | 203,000 |
| Y Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill | 11,000 | 25,000 |

Ffynhonnell: NOMIS Business Register and Employment Survey 2016

# GWASANAETHAU ARIANNOL A PHROFFESIYNOL

> “Cyflogir mwy nag 1 o bob 4 o weithlu'r ddinas yn yn y sector”



Pencadlys Admiral

## PWY SYDD YMA?

Active Quote

Admiral

Atradius

Blake Morgan

Conduit Global

Creditsafe

Delio

Deloitte

Equiniti

Eversheds Sutherland

Firstsource

Gambit

Geldards

Grant Thornton

Handelsbanken

Hugh James

Julian Hodge Bank

KPMG

Legal & General

Lloyds Banking Group

Metro Bank

Motonovo Finance

Monzo

Principality

PwC

SSE

Target Group

Thomas Carroll

Wealthify

Zurich

- Mae gweithgareddau ariannol ac yswiriant, eiddo tirol a gwasanaethau busnes belllach yn gyfrifol am allbwn o £3.5 biliwn
- Ledled Cymru mae mwy na 153,000 yn gweithio yn y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, ac mae'r nifer hwn yn debygol o dyfu i 200,000 erbyn 2021
- Caerdydd sydd â'r nifer mwyaf o bobl sydd â mynediad i fand eang cyflym ymhlith Dinasoedd Craidd y DU, caiff hyn ei hybu gan Gyfnewidfa Rhyngrwyd yng nghanol y ddinas

MAE **53,000** O BOBL YN CAEL EU CYFLOGI YN Y GWASANAETHAU ARIANNOL A PHROFFESIYNOL

FFYNHONNELL: LLYWODRAETH CYMRU 2014

MAE GWASANAETHAU ARIANNOL A PHROFFESIYNOL YN GYFRIFOL AM ALLBWN O **£3.5 BILIWN**

FFYNHONNELL: SYG 2016

Y **1** AF O BLITH DINASOEDD CRAIDD Y DU I **LEOLI SWYDDFA**

FFYNHONNELL: PROPERTY WEEK HOT 100 UK OFFICE 2018

**11.7%** O GYFANSWM GYG YN DOD O GYLLID AC YSWIRIO

FFYNHONNELL: SYG 2016

Gyda phencadlys nifer o wasanaethau ariannol a thechnoleg ariannol (fintech) yn y ddinas, mae Caerdydd wedi dod yn lleoliad pwysig ar gyfer busnesau ariannol.

O'i gymharu â Dinasoedd Craidd eraill y DU, mae ystod eang o fusnesau yn y sector gwasanaethau ariannol â chynrychiolaeth yng Nghaerdydd. Mae gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru yn datgan mai Caerdydd yw'r lleoliad o ddewis ar gyfer canolfannau cyswllt a gwasanaethau a rennir yn DU ac mae enw da'r ddinas yn cynyddu ym meysydd contractau allanol AD a chyfreithiol a gwasanaethau corfforaethol eraill. Mae'r sector ariannol ffyniannus wedi arwain at gynnydd yn nifer

y cwmnïau yswiriant a phensiynau sy'n symud i Gaerdydd. Mae cyflogaeth yn y maes yswiriant yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU, gyda chyfran y bobl a gyflogir yn y maes yswiriant bywyd saith gwaith yn fwy na chyfartaledd y DU.

A hithau ymhlith y 100 gorau yn y byd o ran Busnes ac Economeg, mae gan Ysgol Fusnes Caerdydd berthynas agos â busnesau yn y ddinas, ac mae hefyd yn cydweithio â Legal and General, sydd wedi arwain at bresenoldeb y clwstwr o danysgrifenwyr meddygol mwyaf yn y DU yng Nghaerdydd. Mae'r Ysgol Fusnes hefyd wedi cydweithio ag OSTC i ddatblygu Ystafell Fasnachu Caerdydd.

Mae nifer o gwmnïau gwasanaethau ariannol sy'n adnabyddus ledled y byd, rhai o gwmnïau cyfrifeg mwyaf y DU yn ogystal â chwmnïau lleol wedi ehangu eu busnesau yng Nghaerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ymhlith y rhain mae Admiral a lansiwyd yng Nghaerdydd yn 1993 gyda 57 o staff a

dim cwsmeriaid. Bellach mae gan y cwmni drosiant o fwy nag £1 biliwn, yn cyflogi 10,000 o bobl mewn wyth gwlad a chanddo fwy na 6 miliwn o gwsmeriaid ledled y byd. Cefnogwyd twf Admiral gan addysg uwch yn y ddinas sydd nid yn unig yn cyflenwi llif parhaus o raddedigion galluog, ond hefyd yn cydweithio'n glos gyda busnesau i gynllunio a llunio cyrsiau ar gyfer y sector.

Mae enw da Caerdydd fel prifddinas technoleg ariannol amgen i Lundain yn tyfu, ac mae'n cael ei chydnabod fel enghraifft dda o safle â thechnoleg ariannol gyfun. Cefnogir y sector gan Raglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru, rhaglen waith, hyfforddiant ac astudiaethau academaidd cydweithredol ddwy flynedd, lawn amser sy'n unigryw i Gymru ac a luniwyd i ddatblygu cronfa dalent elitaidd. Mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan y prif gyflogwyr gwasanaethau ariannol gan gynnwys Admiral, Atradius, Hodge Bank, Banc Datblygu Cymru, Cymdeithas Adeiladu Principality, Legal & General a Motonovo.

Mae mentrau eraill a sefydlwyd i gefnogi'r sector Technoleg Ariannol yn cynnwys yr Academi Seiber-Ddiogelwch Cenedlaethol, project arloesol i ddatblygu arbenigwyr seibr-ddiogelwch y genhedlaeth nesaf a sefydlwyd gan Brifysgol De Cymru a Llywodraeth Cymru ac Academi Meddalwedd Cenedlaethol Prifysgol Caerdydd. Nod y fenter hon yw mynd i'r afael â'r diffyg cenedlaethol o ran nifer y graddedigion rhaglennu a pheirianneg meddalwedd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac arweinwyr diwydiant.

> "Caerdydd yw un o'r sectorau ariannol a phroffesiynol mwyaf yn y DU y tu allan i Lundain"

# DIWYDIANNAU CREADIGOL A DIGIDOL

> "Y Sgwâr Canolog yng nghanol y ddinas yw cyrchfan newydd y sector creadigol"



Pencadlys BBC Cymru

## PWY SYDD YMA?

**Avanti Media**

**Bad Wolf**

**Bait Studio**

**Bang Post Production**

**BBC Cymru Wales**

**Boom Cymru TV**

**Box UK**

**Cardiff Theatrical Services**

**Celf Creative**

**Cloth Cat Animation**

**Coup Media**

**Curve Media**

**Ffilm Cymru Wales**

**Fiction Factory**

**Gorilla**

**ITV**

**Milk VFX**

**Orchard Media**

**Pinewood Studio Wales**

**Plimsoll Productions**

**Rant Media**

**Rondo Media**

**S4C**

**Sequence**

**Tidy Productions**

**Vox Pictures**

**Wildflame Productions UK**

- Yng Nghaerdydd mae un o'r sectorau creadigol sy'n tyfu gyflymaf y tu allan i Lundain
- Mae tua thraean o'r holl swyddi yn niwydiant creadigol Cymru yng Nghaerdydd
- Mae 3000 o fusnesau creadigol yng Nghaerdydd
- Mae Caerdydd yn gartref i'r cynhyrchiad Sherlock sydd wedi ennill tair gwobr Emmy yn ogystal â rhaglenni oriau brig y BBC, Doctor Who a Sherlock
- Mae 98.43% o'r ardaloedd yng Nghaerdydd yn gallu manteisio ar fand-eang cyflym iawn a ategir gan Gyfnewidfa Rhwydwaith yng nghanol y ddinas
- Y sector diwydiannau creadigol yw'r sector sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru gyda chyflogaeth yn cynyddu 58% rhwng 2005 a 2018
- Prifysgolion o fri gyda 7,000 o raddedigion diwydiannau creadigol bob blwyddyn mewn pynciau megis animeiddio, effeithiau gweledol, datblygu technolegau digidol a symudol a chelfyddyd gain
- Mae'r diwydiant yn cyfrannu mwy na £1 biliwn o Werth Ychwanegol Crynswth at economi'r ddinas bob blwyddyn
- Gall projectau Teledu, ffilm ac animeiddiad o ansawdd uchel fod yn gymwys ar gyfer credydau treth y DU, sy'n werth hyd at 20% o'u gwariant yn y DU. Mae nifer o wasanaethau cyllid a chymorth traws-sectoraidd hefyd ar gael drwy Lywodraeth Cymru.

Mae sector creadigol Caerdydd yn ifanc, galluog a chysylltiedig, ac yn tyfu'n gyflym. Mae'r ddinas yn meithrin cymuned greadigol sy'n croesawu technolegau newydd ac arloesedd digidol, gan ei gwneud yn un o'r sectorau creadigol mwyaf a mwyaf llwyddiannus y tu allan i Lundain. Rydym yn arloesi yn y gwaith o gyd-leoli sgiliau creadigol a thechnegol sy'n golygu mai Caerdydd yw hyb sector diwydiannau creadigol Cymru gyda chryfderau penodol yn y maes darlledu, teledu a chynhyrchu ffilmiau. Mae crynhoad sylweddol o gwmnïau creadigol yn cael eu denu i Gaerdydd yn sgil presenoldeb darlledwyr o bwys megis y BBC, ITV, S4C, a gefnogir gan ragoriaeth academaidd y ddinas.

Ni yw un o'r prif ganolfannau yn y DU ar gyfer cynyrchiadau sgrin, yn ogystal â bod yn Ddinas Miwsig gyntaf y DU. Yng Nghaerdydd mae Stiwdios Pinewood Cymru, sy'n ychwanegu at stiwdios sefydledig y ddinas megis Pentref Drama y BBC. Y cyfleuster 170,000 metr sgwâr hwn ym Mae Caerdydd, sy'n cynnwys naw stiwdio sydd o'r un main a thri chae pêl-droed, yw cartref pwrpasol prif ddramâu'r BBC - Sherlock, Casualty a Doctor Who.

Mae cwmnïau megis Bad Wolf, a sefydlwyd i greu drama uchelgeisiol, llawn dychymyg ar gyfer y DU, UDA a marchnadoedd teledu byd eang, yn crynhoi ein canolfan gynhyrchu i'r dim. Mae Bad Wolf wedi llwyddo i sicrhau nifer o gynyrchiadau teledu gan gynnwys addasiad o'r gyfres ffantasi o dair gan Philip Pullman, His Dark Materials, a ffilmiwyd yng nghyfleuster 25.000 tr.sg newydd y cwmni, Wolf Studios Cymru.

Mae BBC Wales wedi buddsoddi mewn pencadlys newydd a ddyluniwyd gan Foster & Partners yn y Sgwâr Canolog. Yr adeilad trawiadol hwn yw conglfaen cyrchfan newydd ar gyfer y sector creadigol yng nghanol y ddinas. Mae Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd eisoes wedi symud i'w lleoliad newydd yn union y drws nesaf i Bencadlys y BBC.

Yn ogystal â bod yn lleoliad pwysig ar gyfer rhai o hoelion wyth y sector creadigol, mae Caerdydd hefyd yn gartref i gymuned o fusnesau newydd creadigol sydd wedi bod yn cynyddu o ran maint a hyder. Mae'r ddinas ar ei hennill o gael rhwydwaith o stiwdios artistiaid, hybiau creadigol a lleoliadau cydweithio sy'n tyfu'n gyflym, o'r Gloworks newydd yng nghanol Bae Caerdydd, Tramshed Tech, Rabble Studio ac Indycube yn ogystal â gofod yng Nghanolfan Technoleg Busnes sefydledig Caerdydd.

Gyda chysylltedd a seilwaith digidol uchel, mae cwmnïau creadigol y ddinas yn feiddgar, arloesol ac arbrofol sy'n sicrhau mai Caerdydd yw un o'r dinasoedd mwyaf creadigol a deinamig ym Mhrydain.

**CYFLOGIR MWY NA 15,000** O BOBL YN Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YNG NGHAERDYDD

FFYNHONNELL: NOMIS BRES 2017

MAE'R DIWYDIANT CREADIGOL YNG NGHAERDYDD YN CAEL BUDD TUA **500,000 TR.SG** O FANNAU DEORI

> "Mae llwyddiant clwstwr creadigol Caerdydd yn seiliedig ar gysylltedd, caled a meddal"

Ffynhonnell: Bazalgette Independent review of the Creative Industries 2017

# GWYDDORAU BYWYD

> "Un o'r clystyrau mwyaf cystadleuol yn y DU"



Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru

## PWY SYDD YMA?

- Alesi Surgical
- Authentic World
- BBI Solutions
- Biocatalysts
- Biological Preparation
- CatSci
- Cellesce
- Creo Medical
- Diurnal
- EKF Diagnostics
- Flexicare
- GE Healthcare
- Genesis Biosciences
- Gyrus Medical
- Huntleigh Healthcare
- Indoor Biotechnologies
- Jellagen Pty
- MedaPhor
- Medidata
- Midatech Pharma
- Momentum Bioscience
- Ortho Clinical Diagnostics
- Oxford Pharmagenesis
- Pelican Healthcare
- Pharmaron UK
- Synexus
- TrakCel
- Verona Pharma


- Ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ceir un o'r pum cwmni Diagnosteg Ortho Clinigol gorau yn y byd, y Ganolfan Arloesi ym Maes Gwella Clwyfau, ReNeuron £4 miliwn. Hwn oedd y cwmni cyntaf i dreialu defnyddio bôn-gelloedd gyda chleifion strôc a'r prif gwmni fferyllol arbenigol Ewropeaidd Norgine.
- Prifysgol Caerdydd yw lleoliad gwaith Syr Martin Evans, a enillodd Wobr Nobel am ddarganfod bôn-gelloedd embryonig, ac sydd â Chanolfan Gwaith Ymchwil Meddygol ar gyfer Niwroseiciatreg Genetig a Chanolfan Delweddu er Ymchwil yr Ymennydd (CUBRIC)

CYFLOGIR
**17,000**
YN Y MAES GWYDDORAU BYWYD

FFYNHONNELL: NOMIS BRES 2016



**£100 MILIWN**
WEDI EU HENNILL MEWN CONTRACTAU YMCHWIL GAN BRIFYSGOL CAERDYDD



Gyda Deallusrwydd Artiffisial a thechnolegau yn datblygu'n chwim, mae'r sector Gwyddorau Bywyd egnïol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn amrywiol, yn cael ei sbarduno gan waith ymchwil ac yn cynnwys mentrau byd eang megis Norgine, Biomet, GE Healthcare a Convatec.

Mae gwyddorau bywyd ac iechyd yn cyflogi 17,000 o bobl yng Nghaerdydd mewn meysydd megis e-Iechyd, gwasanaethau fferyllol, meddygaeth adfywiol a thechnoleg feddygol. Cyflogir cyfran uwch o bobl yng Nghaerdydd yn y gwaith o gynhyrchu cyfarpar arbelydriad, electrofeddygol ac electrotherapiwtig, offer meddygol a deintyddol, cyflenwadau a chymysgeddau fferyllol na chyfartaledd y DU.

Mae'r sector yn cael cefnogaeth dda gan brifysgolion y rhanbarth sy'n cynnig gwybodaeth arbenigol o safon byd eang yn y maes ymchwil gydag agwedd fasnachol gref. Caiff y wybodaeth arbenigol ym maes ymchwil Gwyddorau Bywyd ledled Cymru ei dwyn ynghyd gan y Rhwydwaith Gwaith Ymchwil Gwyddorau Bywyd a arweinir gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r Rhwydwaith wedi cefnogi ystod eang o weithgareddau therapiwtig ar y cyd â mwy na 300 o bartneriaid gwaith ymchwil o'r meysydd diwydiant, elusennol, y GIG a phrifysgolion rhyngwladol eraill.

Yn ogystal â chyfleusterau megis canolfan Medicentre Caerdydd (cwmni sy'n helpu egin fusnesau technoleg feddygol ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru), bu buddsoddiad sylweddol hefyd yn Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru ym Mae Caerdydd, y brif ganolfan ar gyfer sefydliadau academaidd a gofal iechyd, busnes, ymgynghorwyr arbenigol, sefydliadau clinigol a chyllido. Nod yr Hyb yw ysgogi rhyngweithio, arloesedd, rhwydweithio a chydweithio, gan droi'r cysylltiad rhwng syniadau a masnacheiddio yn realiti a chynnig anodd a sbardunir gan fasnach ar gyfer y sector.

Mae'r sector gwyddorau bywyd yng Nghymru hefyd yn cael budd o'r cyngor, cymorth a chyfleoedd busnes a gynigir i aelodau MediWales.

Mae'r rhwydwaith yn hybu cydweithio o fewn y gymuned gwyddorau bywyd a thechnoleg iechyd ac yn cynnig mynediad i gyfleoedd masnachu byd eang, ac arbenigedd clinigol. Drwy ei


Academi Gwyddorau Bywyd, mae MediWales yn cysylltu cwmnïau â myfyrwyr a graddedigion sy'n meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt ac yn cynnal cyrsiau hyfforddiant gyda golwg ar ddatblygu sgiliau allweddol o fewn y sector.

Mae'n bosib y bydd cymorth ariannol gan Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru ar gael i gwmnïau cymwys.

> "Mae'r tair prifysgol yng Nghaerdydd yn cyflenwi gwyddonwyr talentog ac yn cynnig arbenigedd academaidd"

# GWEITHGYNHYRCHU UWCH

> "Sector eang a blaengar"



IQE

## PWY SYDD YMA?

- Airbus
- AerFin
- Aston Martin
- BCB International
- British Airways
- Celsa
- Doncasters
- Dow Corning
- Elmatic
- GE Aviation
- General Dynamics
- Harris Pye
- Harlech Industrial Doors
- HDM Tubes
- IQE
- Newport Wafer Fab
- Panasonic
- Pavecost Manufacturing
- Philtronics
- Renishaw
- RSR Diagnostics
- Royal Mint
- Sony UK Technology Centre
- SPTS Technologies
- Tema Engineering
- Ultrawave
- UTS Group
- Zeon Chemicals

- Mae cynhyrchiant Uwch Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu yng Nghymru 20% yn uwch na'r cyfartaledd am y DU (Ffynhonnell: ONS)
- Ardal Fenter Gofod Awyr Benodedig yn Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd
- Ardal Fenter Gweithgynhyrchu 40 hectar yn y Brifddinas-ranbarth yn Glynebwy
- Enw da Ledled y Byd am Cynnal, Cadw ac Atgyweirio awyrennau, sydd wedi cymryd mwy nag 20% o farchnad y DU
- Mae gweithgynhyrchu ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd yn cyflawni £5.3 biliwn o allbwn (Ffynhonnell: SYG 2016)

CYFLOGIR **70,000** O BOBL YN Y SECTOR GWEITHGYNHYRCHU YM MHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

FFYNHONNELL: ONS BUSINESS REGISTER AND EMPLOYMENT SURVEY 2016

MAE SEILWAITH PAROD AR GAEL I FUSNEAU YM MAES AWYR CAERDYDD AC PHARTH MENTER SAIN TATHAN

MAE **1200** O ISRADDEDIGION WEDI'U COFRESTRU AR GYRSIAU PEIRIANNEG YM MHRIFYSGOL CAERDYDD

Mae gan Gaerdydd sector gweithgynhyrchu datblygedig ffyniannau, a gefnogir gan gysylltiadau i addysg uwch a gweithlu technegau gweithgynhyrchu galluog. Mae'r arbenigedd yn amrywio o electroneg, i waith cynhyrchu dur modern yn Ffwrnais Drydan fwyaf effeithiol Ewrop yn Celsa Steel UK. Cyflogir tua 9,000 o bobl yn y maes gweithgynhyrchu uwch yng Nghaerdydd, gyda llawer mwy yn cael eu cyflogi yn y sectorau ategol (Ffynhonnell: NOMIS BRES 2016).

Mae'r sector hefyd yn cael ei chefnogi gan brifysgolion y ddinas, sydd â chysylltiadau clos gyda byd busnes a masnacheiddio gwaith ymchwil. Mae Canolfan Systemau Gweithgynhyrchu Uwch Caerdydd (CAMSAC) yn un enghraifft, canolfan ymchwil a sefydlwyd i adeiladau ar enw da Caerdydd o ran gwaith ymchwil rhyngwladol sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu. Mae CAMSAC yn pontio'r disgyblaethau peirianneg a busnes ac yn cydweithio â busnesau i ddatblygu cysyniadau gweithgynhyrchu newydd, gan fanteisio ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, EPSRC, y Bwrdd Strategaeth Technoleg, yr Undeb Ewropeaidd a diwydiant.

Ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mae hefyd amrywiaeth eang o arbenigedd mewn sectorau megis y sector awyrofod ac amddiffyn, gyda busnesau megis GE Aviation, British Airways, Airbus Defence and Security, BAE Systems a General Dynamics yn bresennol yn Neddwyrain Cymru. Mae sectorau eraill sydd â phresenoldeb sylweddol yn y brifddinas-ranbarth yn cynnwys y sector modurol,

Sydd â phwyslais arbennig ar waith ymchwil i dechnegau carbon isel, a lle gwelir busnesau ac academia yn cydweithio, megis Sefydliad Ynni Prifysgol Caerdydd gyda Ricardo a Qinetiq ar danwydd a thechnoleg amgen.

Mae'r ddinas hefyd yn cynnwys gweithgynhyrchwyr technoleg uwch megis IQE, sy'n cynhyrchu hanelau lled-ddargludyddion cyfansawdd pwrpasol i'r prif gwmnïau cynhyrchu sglodion. Mae IQE yn unigryw am ei fod yn gallu cyflenwi haenellau sy'n defnyddio'r holl blatfformau technoleg ar gyfer tyfu crisialau. Gan adeiladu ar gryfder IQE, datblygwyd cyfleuster modern yn Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd gyda golwg ar gefnogi datblygiad clwstwr diwydiant Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn yr ardal.

O'i gymharu â Dinasoedd Craidd y DU, mae gan Gaerdydd amrywiaeth eang o fusnesau yn y sector gweithgynhyrchu uwch. Cyflogir cyfran uwch o bobl ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd mewn amrywiaeth o sectorau gweithgynhyrchu na chyfartaledd y DU, o beiriannau electroneg i ddeunyddiau adeiladu.

> "Arbenigedd yn y sectorau awyrofod, haenell lled-ddargludo a moduro"




# RYDYN NI'N GYSTADLEUOL DROS BEN

"Gweithlu medrus a thalentog gyda chyflogau cystadleuol i raddedigion"

No. 1 Central Square

## COSTAU STAFFIO **CYSTADLEUOL IAWN**



**MARCHNAD FUDDSODDI** 2017, Y FLWYDDYN GRYFAF I'W CHOFNODI GYDA MAINT Y BUDDSODDIADAU YN CYRRAEDD



**£474.5M**

FFYNHONNELL: ALDER KING MARKET MONITOR 2018

### Cost Swyddfa Blynyddol fesul person

| | |
|---|---|
| **CAERDYDD** | **£5,205** |
| Bryste | £5,800 |
| Thames Valley | £5,885 |
| Leeds | £5,905 |
| Caeredin | £6,365 |
| Birmingham | £6,625 |
| Manceinion | £6,870 |
| Llundain | £14,540 |

FFYNHONNELL: TECH NATION 2018

### Costau Byw Dinasoedd y DU yn erbyn Llundain

| Dinas | Cyfanswm | Tai |
|---|---|---|
| Manceinion | -35% | -43% |
| **CAERDYDD** | **-41%** | **-46%** |
| Shefeld | -42% | -43% |
| Leeds | -36% | -42% |
| Glasgow | -36% | -46% |
| Bryste | -23% | -11% |
| Birmingham | -32% | -34% |

FFYNHONNELL: EXPATISAN COST OF LIVING 2018

### Cyflogau graddedigion fesul Dinas

| | |
|---|---|
| Llundain | £32,500 |
| Newcastle | £32,500 |
| Glasgow | £28,000 |
| Caeredin | £27,000 |
| Bryste | £26,703 |
| Manceinion | £25,000 |
| Birmingham | £25,000 |
| Leeds | £25,000 |
| **CAERDYDD** | **£25,000** |
| Nottingham | £23,000 |

FFYNHONNELL: TOTAL JOBS 2018

Gall sefydlu neu leoli busnes yng Nghaerdydd gynnig manteision amlwg gyda chostau gweithredu isel o'u cymharu â dinasoedd eraill yn y DU. Ychwanegwch at hyn y manteision o allu sicrhau gweithlu mawr a galluog ac mae Caerdydd yn edrych fel petai'n fenter ddeniadol dros ben.

## Eiddo

Yn ystod y degawd olaf mae'r ddinas wedi newid yn gyfan gwbl gyda chyflenwad cyson o ddatblygiadau swyddfa a manwerthu o safon uchel. Mae datblygiadau sylweddol newydd yn cynnwys 3 a 4 Cwr y Ddinas gyda Phencadlys newydd y BBC yn ganolbwynt i'r datblygiad mawreddog yn y Sgwâr Canolog.

Mae costau eiddo masnachol yng Nghaerdydd yn gystadleuol dros ben a tua 40% o'r costau yn Llundain. Mae rhenti gradd A canol y ddinas ymysg yr isaf yn y Dinasoedd Craidd ac yn costio £25 fesul troedfedd sgwâr.


### RHENTI DIWYDIANNOL RHAGOROL (PSF)

RHAG 2017 (CUSHMAN AND WAKEFIELD)




### RHENTI GRADD A CANOL Y DDINAS (PSF)

RHAG 2017 (CUSHMAN AND WAKEFIELD)




Mae gan Gaerdydd hefyd gyflenwad digonol o unedau cydweithio a deori cost-effeithiol, sy'n ddelfrydol ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn y sectorau creadigol neu dechnoleg. Mae'r rhain yn cynnwys Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd, Tramshed Tech, Tec Marina, Eagle Lab, Indycube a Welsh Ice.

## Cyflogau

Mae cyflogau staff yng Nghaerdydd yn gystadleuol dros ben.

Ar gyfartaledd mae cyflogau ymhlith yr isaf o'u cymharu â dinasoedd pwysig eraill ledled y DU gyda'r cyfartaledd cyflog (canolrifol) llawn amser wythnosol £21.60 yn is na chyfartaledd y DU (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru). Mae cyflogau graddedigion hefyd yn gystadleuol dros ben, gyda chyflenwad cyson o weithwyr galluog a thalentog yn cefnogi busnesau ledled y ddinas.

## Cymorth Ariannol

Mae Caerdydd yn ffodus o allu manteisio ar amrywiaeth eang o grantiau a chymorth ariannol gydag ystod o anogaeth a chymorth ar gael i fusnesau sy'n ystyried sefydlu neu symud i'r ddinas.

Gall projectau buddsoddi arwain at anogaeth ar gyfer buddsoddi cyfalaf / creu swyddi.

Er ein bod yn gwybod nad grantiau a chymorth ariannol yw'r prif resymau dros ddewis lleoliad bywiog fel Caerdydd, gall cymorth grant helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi ac mae ganddo'r potensial i wella enillion.

Ynghyd â chyflogau cystadleuol gall pecyn cymorth grant fod yn gynnig cystadleuol dros ben i fusnesau sy'n chwilio am leoliad sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.




# DINAS Y PRIFYSGOLION

"Mae prifysgolion Caerdydd yn cael eu cydnabod am eu gwaith ymchwil sydd gyda'r gorau yn y byd"


Credyd Delwedd: Prifysgol De Cymru

Mae tair ysgol fusnes a thair o ysgolion y gyfraith wedi'u sefydlu yn y ddinas

**75,000** O FYFYRWYR YN Y DDINAS-RANBARTH EHANGACH



**TAIR PRIFYSGOL** YNG NGHAERDYDD




Mae Caerdydd yn gartref i tua 70,000 o fyfyrwyr sy'n astudio mewn tair prifysgol: Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru sydd rhyngddynt yn cynnig tair ysgol fusnes a thair ysgol y gyfraith. Mae prifysgolion y ddinas yn denu talentau o bob rhan o'r byd, gydag 1 myfyriwr o bob 4 yn fyfyriwr rhyngwladol.

## Prifysgol Caerdydd

Mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o brifysgolion gwaith ymchwil blaenllaw Russell Group ac mae ganddi enw da am safon ei haddysgu a'i gwaith ymchwil. Mae tua 31,500 o fyfyrwyr, gan gynnwys dros 4,000 o dros 100 o wledydd y tu allan i'r DU, yn helpu i greu cymuned gosmopolitan fywiog.

Gosodwyd y brifysgol ymhlith y 5 Prifysgol gorau yn y DU o ran safon ac effaith ei gwaith ymchwil yn y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Gwaith Ymchwil (REF 2014) diweddaraf gyda 87% o'r gwaith ymchwil yn cael ei farnu ymhlith y gorau yn y byd neu'n rhyngwladol wych. Barnwyd mai'r Ysgol Peirianneg yw'r gorau yn y DU o ran effaith ei gwaith ymchwil (REF 2014) ac mae wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda diwydiant.

Mae Ysgol Busnes Caerdydd yn un o ddim ond 11 ledled y DU i gael ei achredu gan yr Association to Advance Collegiate Schools of Business (AACSB) yn ogystal â bod yn aelod o'r Russell Group. Dyma Ysgol Fusnes Gwerth Cyhoeddus cyntaf y byd, sydd wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau cymdeithasol ac economaidd.

Mae **Prifysgol Metropolitan Caerdydd** yn tyfu'n gyflym gyda busnes a rheoli yn un o'i chryfderau. Mae ei chyrsiau sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd yn sicrhau bod ei graddedigion yn boblogaidd gyda chyflogwyr.

Mae'r meysydd y mae'r brifysgol yn arbenigo arnynt yn canolbwyntio ar ei phum ysgol, sef Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, Ysgol Addysg Caerdydd, Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd, Ysgol Reoli Caerdydd ac Ysgol Chwaraeon Caerdydd. Yn ogystal, mae Canolfan Genedlaethol Dylunio Cynnyrch ac Ymchwil Datblygu (PDR) yn cynnig arbenigedd mewn dylunio ac arloesi, ac yn cynnig cymorth i fusnesau gweithgynhyrchu.

Yng nghanlyniadau diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Gwaith Ymchwil, nodwyd mai Prifysgol Metropolitan Caerdydd oedd y brifysgol 'fodern' ôl-1992 uchaf ei safle a bod proffil safon cyffredinol y Brifysgol gyda'r gorau yn y byd neu'n rhyngwladol wych.

Mae **Prifysgol De Cymru** yn un o'r prifysgolion mwyaf yn y DU gyda 17,000 o fyfyrwyr israddedig ac mae ganddi enw da am ei phartneriaeth gyda phrif gyflogwyr y rhanbarth.

Mae'r brifysgol wedi sefydlu Canolfan Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol yng Nghaerdydd ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fodloni'r


galw yn y ddinas am sgiliau yn y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol sy'n cynyddu.

Gan arbenigo yn y diwydiannau creadigol, ynni cynaliadwy a chyfathrebu symudol, mae llawer o ddarlithwyr ym Mhrifysgol De Cymru yn gwneud gwaith ymchwil sy'n cyfrannu at ddatblygu eu maes arbenigedd. Yn ôl canlyniadau diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Gwaith Ymchwil mae hanner y gwaith ymchwil a wneir gan y brifysgol un ai gyda'r gorau yn y byd neu'n rhyngwladol wych.

Mae prifysgolion Caerdydd yn cynhyrchu mwy o raddedigion Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol fesul pen o'r boblogaeth nag unrhyw ddinas fawr arall yn y DU

Ffynhonnell: Deloitte and Llywodraeth Cymru 2017

# RYDYN NI’N ♥ CAERDYDD



“Dinas gyda safon byw y gallwch ei mwynhau”

"Mae Dinas-ranbarth Caerdydd yn cynnig y cyfan – dinas fywiog, arfordir syfrdanol a mynyddoedd aruthrol"

Mae ansawdd bywyd yn un o fanteision cystadleuol mawr Caerdydd. Mae'n cael ei chydnabod yn gyson fel un o'r dinasoedd gorau i fyw ynddi gan drigolion, ac yn arolwg Safon Bywyd yn Ninasoedd Ewropeaidd UE 2016 barnwyd mai Caerdydd oedd y Ddinas Graidd orau yn y DU o ran ansawdd bywyd.

Barnodd yr arolwg mai Caerdydd oedd y:

- Ddinas orau yn y DU o ran cyfleusterau diwylliannol
- Dinas orau'r DU o ran safon ei mannau agored a'r 10fed yn Ewrop, gyda mwy o fannau gwyrddion fesul person nag unrhyw ddinas graidd arall yn y DU
- Y ddinas orau o ran ei chyfleusterau manwerthu, a'r 5ed orau yn Ewrop
- Yr 2il ddinas orau yn y DU o ran ei chyfleusterau chwaraeon

## Dinas mewn lleoliad gwych sy'n cynnwys atyniadau, chwaraeon, diwylliant ac adloniant.

Ni waeth sut yr ydych yn hoffi treulio eich amser hamdden, rydych yn sicr o ddod o hyd i rywbeth i fynd â'ch bryd yng Nghaerdydd a'i Phrifddinas-ranbarth.

Mae gennym lawer i'w gynnig i gefnogwyr chwaraeon. Yn gartref i Stadiwm Principality (arena dan do fwyaf Ewrop gyda tho y gellir ei gau ac agor a lle i 75,000 o bobl), mae Caerdydd hefyd yn lleoliad y cynhelir digwyddiadau chwaraeon o bwys ynddo megis Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA 2017, rygbi rhyngwladol, cyfres criced Y Lludw a gornestau pwysau trwm.

Os mai gweithgareddau awyr agored sy'n mynd â'ch bryd, mae De Cymru yn cynnig yr ystod lawn o weithgareddau o gyrsiau golff sydd gyda'r gorau yn y byd i donfyrddio, dringo, barcuta pŵer ac arforgampau, oll yn yr ardaloedd arfordir treftadaeth a pharciau cenedlaethol prydferthaf yn y DU.

Gall y rhai sy'n hoffi'r celfyddydau fwynhau bywyd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol Caerdydd. Mae Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd wedi hen sefydlu ei hun fel un o leoliadau diwylliannol gorau'r byd ac yn y ddinas hon hefyd ceir sefydliadau cenedlaethol sydd ag enw da yn rhyngwladol megis Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa.

Genedlaethol Cymru'r BBC ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd sy'n cynnwys rhai o'r casgliadau gorau o baentiadau'r mudiad Argraffiadaeth yn Ewrop yn ogystal ag arddangosfeydd teithiol o bwys.

Mae Caerdydd yn ddinas sy'n hoffi parti hefyd! Mae tymor y gwyliau yn cynnwys sawl digwyddiad gan gynnwys Gŵyl Haf Caerdydd, Gŵyl Gomedi Caerdydd, yr Ŵyl Bwyd a Diod Ryngwladol, Penwythnos Mawr Pride Cymru, Gŵyl Sŵn, Gŵyl y Llais, Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ogystal â Gŵyl y Gelli yng Nghanolbarth Cymru.

Gyda'r hwyr, mae Caerdydd yn cynnig popeth y byddech yn disgwyl ei gael mewn prifddinas gyda channoedd o fwytai, barrau a chlybiau i blesio pawb. Mae'r ddinas hefyd yn lleoliad y mae perfformwyr mwyaf blaenllaw y bydd yn chwarae ynddo ac yn ddiweddar mae Caerdydd wedi croesawu Beyoncé, The Rolling Stones, Ed Sheeran a Coldplay.

Yn syml, mae pobl wrth eu bodd yn byw yng Nghaerdydd - dinas sy'n ei gwneud yn hawdd sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

**MWY O FANNAU GWYRDD FESUL PERSON NAG UNRHYW DDINAS GRAIDD ARALL YN Y DU**

MAE **97%** O DRIGOLION CAERDYDD YN FODLON O RAN BYW YNG NGHAERDYDD

FFYNHONNELL: EUROPEAN COMMISSION QUALITY OF LIFE IN EUROPEAN CITIES 2015

"Yn gryno, yn amlddiwylliannol mae gan Gaerdydd ei naws arbennig ei hun, gyda diwylliant a nodweddion hanesyddol helaeth, busnesau annibynnol ac awyrgylch gyfeillgar."

Ffynhonnell: Lonely Planet

**1 AF O RAN ANSAWDD**

LLEOLIADAU CHWARAEON AC ADLONIANT

STADIWM PRINCIPALITY

ARENA MOTORPOINT

CANOLFAN MILENIWM CYMRU

STADIWM DINAS CAERDYDD

MAES CRICED GERDDI SOPHIA

# PAM CAERDYDD?

“Lleoliad, sgiliau, ffordd o fyw, cefnogaeth – Caerdydd yw’r dewis callaf i fusnesau”



**Natasha Hale**
Prif Swyddog Gweithredol
**Bad Wolf**

BADWOLF

Cwmni cynhyrchu Ffilmiau a Theledu Sgript annibynnol

“Nid oes staff gwell i’w gael yn unman! Mae Jane Tranter, sefydlwr Bad Wolf, wedi gweithio mewn lleoliadau ledled y byd, ac mae hi’n dweud bod yr un agwedd yng Nghaerdydd ag sydd i’w gael yn Efrog Newydd. Mae’r staff yng Nghaerdydd mor awyddus i weithio’n galed, mor awyddus i weithio y gellir dweud eu bod nhw ymhlith rhai o’r criwiau gorau yn y byd. Mae yna frwdfrydedd yng Nghaerdydd i weithio’n galed, cyd-dynnu a gwneud gwaith da ac rydw i’n meddwl mai’r brwdfrydedd hwnnw sydd gennym ni yn Bad Wolf.

Rydyn ni wedi dod â llawer o bobl o wledydd tramor i mewn sydd wedi dod i fyw yma yn ystod y gwaith o ffilmio cynyrchiadau ac rydw i o’r farn mai’r hyn y mae’r bobl hynny yn ei wirioneddol hoffi am Gaerdydd yw’r ansawdd bywyd, yr aer glan, y ffaith y gallwch gerdded i bobman, y parciau gwych, a’r ffaith eich bod bob amser yn eithaf agos i Lundain a Heathrow.”



**Gareth Powell**
Prif Swyddog Gweithredol
**BBC Wales**

BBC cymru wales

Prif ddarleddwr gwasanaeth cyhoeddus y byd

“Mae nifer y bobl sy’n gweithio yn y sector creadigol yng Nghaerdydd wedi dyblu dros y ddegawd olaf ac mae Caerdydd wedi bod yng nghanol y twf hwnnw. Y tu allan i Lundain, mae Caerdydd wedi gweld y twf mwyaf o ran chynhyrchu digidol a chreu cynnwys, ac felly mae’n bwysig dros ben. Mae Caerdydd yn hyb cenedlaethol ar gyfer gwaith cynhyrchu digidol gyda darlledwyr cenedlaethol, llu o gwmnïau cynhyrchu a chyfleusterau annibynnol, a chymuned lawrydd sy’n crynhau ac yn tyfu’n gyson. Rydw i’n credu bod dyfodol gobeithiol i’r diwydiannu creadigol yng Nghaerydd.

Rydym wedi buddsoddi yn ein Pencadlys newydd yn y Sgwâr Canolog ac mae hynny wedi sbarduno gwaith adfywio ehangach o gwmpas yr ardal honno yng nghanol Gaerdydd gan sicrhau £1.1 biliwn o werth economaidd ychwanegol a 1900 o swyddi. Mae bod wrth wraidd y diwydiannau creadigol yn yr ardal hon o Gaerdydd yn gyfle gwych i ni fod yn nes at ein partneriaid ac yn fwy hygyrch i’r cyhoedd.”



**Nia Thomas**
Rheolwr Gyfarwyddwr
**Boom Cymru**

boomcymru

Cwmni cynhyrchu teledu sy'n cynhyrchu rhaglenni drama, adloniant a ffeithiol arloesol i blant a phobl ifanc ar ran y BBC, ITV, S4C a Channel 5

"Mae Caerdydd yn ddinas anhygoel o greadigol. Rydym ar warthau Llundain o ran bod yn ganolfan greadigol o bwys ac rydym wrth ein bod o fod yng ynghanol hynny. Mae presenoldeb tri darlledwr yng Nghymru wedi'i gwneud yn bosibl i ni dyfu ac mae'r posibilrwydd o dwf pellach yn y dyfodol yn ein cyffroi.

Mae pobl yn dod yma, yn hoffi'r lle ac yn aros. Mae nifer o bobl yn dod o Fryste a Llundain ac yn ymgartrefu yng Nghaerdydd. Mae'n nhw wrth eu bodd gyda'r ddinas.

Mae mwy na hanner y boblogaeth yma dan 35 mlwydd oed, sy'n ei gwneud yn ddinas ifanc a bywiog. Mae gennym gyfleusterau gwych yma. Mae canol Caerdydd yn lle gwych i fod ynddo, mae popeth yn agos at ei gilydd ac rydym wrth ein bodd o fod yma."



**Jamie Beer**
Rheolwr Recriwtio
**CELSA UK**

CELSA GROUP | CELSA STEEL UK

Gweithgynhyrchwyr cynnyrch dur atgyfnerthol a chynnyrch dur arall

"Celsa yw cynhyrchydd dur atgyfnerthol mwyaf y DU ac un o'r gweithgynhyrchwyr mwyaf o gynnyrch dur o fathau eraill. O'n cyfleusterau yng Nghaerdydd rydym yn cynhyrchu tua 1.2 miliwn tunnell o gynnyrch gorffenedig bob blwyddyn o ddur a ailgylchwyd, gan gyflenwi marchnadoedd yn y DU ac Iwerddon yn bennaf. Mae lleoliad strategol Caerdydd o fudd mawr i ni. Yn agos at y Porthladd ac ar goridor yr M4 mae gennym fynediad gwych i gyflenwyr a marchnadoedd pwysig.

Mae gennym hefyd gronfa lafur fawr, amrywiol a galluogi yn Ne Cymru, gyda graddedigion o ansawdd uchel, yn enwedig yn y meysydd cyllid a pheirianneg.

Un o'r pethau gorau am weithio a byw yng Nghaerdydd i mi yw'r ffaith ei bod yn ddinas fetropolitan gyda digwyddiadau diwylliannol gwych, ac mae llawer o gyfle yma i deuluoedd a phobl ifanc."



**Wayne Harvey**
Uwch Barnter
**Deloitte**

Deloitte.

Arbenigedd yn y maes gwasanaethau ariannol a phroffesiynol byd eang

"Rydym wedi ehangu'n gyflym yng Nghaerdydd dros y bum mlynedd diwethaf ac rydym bellach yn cyflogi mwy na mil o bobl mewn pedwar gwahanol leoliad yn y ddinas. Cynigiwyd Caerdydd, ynghyd â dinasoedd eraill yn y DU a thramor, fel lleoliad posibl ar gyfer ein canolfan ddosbarthu. Roedd yr achos dros ddewis Caerdydd yn gryf iawn ac roeddem yn falch iawn o'r cymorth a gawsom gan y Cyngor, a Llywodraeth Cymru, a'n helpodd i ddod â'r ganolfan ddosbarthu i'r ddinas yn 2015. Mae'r ganolfan bellach yn cynnwys nifer o dimau cymorth a gwasanaeth cleientiaid sy'n arbenigo mewn amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwaith ymchwil aml-ieithog, gwasanaeth gweinyddu treth rhyngwladol, dadansoddeg data a datblygu meddalwedd robotig.

Mae Caerdydd yn enwedig o dda o ran recriwtio – mae'r gweithlu yn amrywiol ac mae yma boblogaeth fawr o fyfyrwyr. Rydym wedi recriwtio pobl gyda sgiliau iaith busnes cryf gan ein bod yn gweithio yn y DU a chyda chleientiaid tramor. Mae hyn yn golygu bod mwy na 50 o ieithoedd yn cael eu siarad yn ein busnes yng Nghaerdydd, sy'n golygu ein bod mewn sefyllfa unigryw yn rhwydwaith fyd eang y cwmni ac wedi sicrhau bod gennym enw da yn rhyngwladol."



**Mike Cooper**
Arweinydd Safle
**GE Healthcare**

Gwaith Ymchwil a Datblygu arloesol a gweithgynhyrchu biofferyllol

"Mae gan Gaerdydd yr holl fanteision a gynigir gan brifddinas ond ar yr un pryd nid yw'n ddinas fawr iawn ac felly gallwch deithio o'i hamgylch yn gyflym.

Rydym mewn lleoliad wrth ymyl yr M4 ac yn gallu manteisio ar gysylltiadau trafnidiaeth da o ran y deunyddiau sy'n dod i mewn a hefyd o ran cyflwyno ein cynnyrch gorffenedig i gynulleidfa fyd-eang.

Mae gennym hefyd gysylltiadau da gyda'r prifysgolion a'r ysgolion, a chysylltiadau gwych gyda'r llywodraeth hefyd. Mae hyn yn golygu os bydd angen i ni drafod rhywbeth ac unrhyw adeg rydym yn gallu cysylltu â nhw yn gyflym iawn.

Mae ein gweithlu yn ased ardderchog. Mae llawer o'n staff wedi bod yn gweithio i ni am amser maith ac os oes gofyn i ni gwblhau gwaith yn gyflym rydym yn gwybod y gallwn ddibynnu arnyn nhw i wneud hynny. Maen nhw bob amser yn fodlon gwneud popeth o fewn eu gallu ar ein rhan!"




**Richard Moss**
Rheolwr Gyfarwyddwr
**Gorilla**

GORILLA

Cwmni sy'n cynnig gwasanaethau ôl-gynhyrchu llawn gan arbenigo yn y maes cyfryngau darllenu a film

"Er ein bod ni wedi sefydlu cwmnïau yn Llundain rydym bob amser yn dod yn ôl i Gaerdydd a dyma leoliad ein pencadlys erbyn hyn. Mae gan Gaerdydd gymuned cyfryngau ffyniannus nawr. Mae gen i'r talent a'r tîm priodol yma, mae ansawdd y gweithlu yn ardderchog. Mae'r prifysgolion lleol yn wych ac felly mae ein staff newydd o safon uchel iawn.

Rydw i wrth fy modd yn byw yng Nghaerdydd. Gallaf feicio i'r gwaith, mae cefn gwlad ar garreg fy nrws. Gallaf fynd i'r traethau, gallaf fynd i'r mynyddoedd. Mae popeth yma yng Nghaerdydd! Mae'n cynnig ffordd o fyw a chyfleustra a dydych chi ddim yn teithio drwy'r adeg. Mae'n hawdd croesi'r ddinas mewn byr amser ac rydw i wrth fy modd yma."



**Peter Cashin**
Rheolwr Gyfarwyddwr
**Huntleigh Healthcare**

HUNTLEIGH

Cynnig atebion arloesol yn y maes monitor gofal fasgiwlaidd, y ffetws a chleifion

"Rydym wedi bod yn gweithio yng Nghaerdydd ers tri deg mlynedd fel cwmni meddygol uwch-dechnoleg. Yn ddiweddar rydym wedi penderfynu cynyddu'r gwaith o ddatblygu cynnyrch newydd ac mae'r grŵp o gwmnïau wedi penderfynu mai Caerdydd fyddai'r ardal y maen nhw am fuddsoddi ynddi. Y rheswm dros hynny yw bod gennym seilwaith lleol da iawn o ran prifysgolion, cyfleusterau meddygol a seilwaith gyffredinol yn y ddinas i helpu'r busnes ddatblygu.

Fel cwmni gwyddorau bywyd mae ansawdd y gweithlu yn bwysig dros ben i ni. Mae'r bobl a gyflogir gennym yn y rhanbarth hon yn weithwyr o ansawdd uchel, yn dechnegol ac yn ddeallusol, a chyda sgiliau uchel o ran tasgau a gyflawnir â llaw. Rydym yn falch dros ben gyda'r gweithlu yn ardal Caerdydd."



**Dr Andrew Mearns Spragg**
Sefydlwyr a Phrif Swyddog Gwyddonol
**Jellagen**

Busnes Meddygol-Technolegol sy'n gweithgynhyrchu cynnyrch colagen y genhedlaeth nesaf

"Sefydlwyd Jellagen yn Sir Benfro yn 2013 i fanteisio ar sglefrod môr fel ffynhonnell colagen y genhedlaeth nesaf sy'n cynnig buddion yn y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud yn y maes meddygaeth peirianneg adfywiol a meinwe sydd ohoni heddiw.

Wrth i'r cwmni dyfu roedd rhaid i ni feddwl am gyflogaeth, cyfleusterau a gweithgynhyrchu ac roedd hyn i gyd yn golygu mai symud i Gaerdydd oedd y cam nesaf. Mae ein cyfleuster yma yn wych – mae'r pris fesul troedfedd sgwâr a'r trethi yma yn eithaf rhesymol, roedd y lleoliad yn ganfas gwag. Rydym nawr yn cynllunio ac yn adeiladu ar gyfer llwyddiant at wedi ehangu i'r uned drws nesaf.

Rydw i'n meddwl bod cyfle gwych ar gyfer gwyddorau bywyd yng Nghaerdydd. Mae gennym brifysgolion ardderchog yn y rhanbarth sy'n gwneud gwaith gwyddonol gwych, felly ar lefel academaidd yn unig, rydw i'n credu bod cyfle aruthrol yma y dylai Cymru fod yn falch iawn ohono."



**Claire Edington**
Pennaeth Gweihtrediadau Cleient Gwsmeriaid LGIM a Chyfarwyddwr Safle Caerdydd
**Legal & General**

Cwmni Gwasanaethau Ariannol Rhyngwladol

"Mae gan Legal & General nifer o leoliadau ledled y DU ond mae lleoliad Caerdydd yn eithaf unigryw. Mae brwdfrydedd y staff, y sgiliau sydd gennym yma a hefyd y ffyddlondeb i'r brand ac i'n gilydd yn golygu bod Caerdydd yn lleoliad eithriadol. Mae ansawdd y gweithlu yn wych ac weithiau rydw i'n teimlo bod gormod o ddewis gennym.

Mae cael tair prifysgol ar garreg ein drws yn fantais aruthrol ac mae'r sgiliau ar arbenigedd a gynigir ganddynt yn gryf iawn. Mae gennym sgiliau gwych ar draws y sbectrwm o ran gwasanaethau ariannol yn y maes cyllid, gwasanaeth cwsmeriaid a marchnata – gallwn ddod i hyd i'r holl sgiliau sydd eu hangen arnom! Mae'n ymwneud â mwy na sgiliau fodd bynnag, mae hefyd yn ymwneud â galluoedd ac agwedd ac yma yng Nghaerdydd mae agwedd y staff yr ydym yn eu recriwtio heb ei hail."



**Stuart Gall**
Prif Swyddog Gweithredol
**MedaPhor**

Datblygwyr meddalwedd uwchsain a phlatfformau efelychu

“I ni, mae bod yng Nghaerdydd yn cynnig yr holl fanteision sy’n gysylltiedig â chael mynediad i ysgol feddygaeth y Waun gyda’i meddygon a chleifion, y brifysgol a’i gwaith ymchwil o safon, cyllid gan IP Group a Banc Datblygu Cymru, Medicentre, ynghyd â’r rhwydwaith cymorth a seilwaith eang a gynigir i fusnesau newydd sydd wedi sefydlu mor llwyddiannus yma.

Mae tîm Cyfoethogi Caerdydd yng Nghyngor Caerdydd wedi bod yn gefnogol dros ben. Yn y dyddiau cynnar pan oeddem yn ceisio codi arian i fasnacheiddio ei cynnyrch a’i gyflwyno i’r farchnad, buddsoddodd Cyngor Caerdydd yn ein busnes ac fe helpodd eu cymorth cyllid ni i gyflwyno’r cynnyrch ac roedd hynny’n gefnogaeth wych i ni. Mae’n nhw bob amser yn chwilio am ffyrdd y gallan nhw ein helpu, o ran rhwydweithio ac o ran dod o hyd i feysydd lle gall Llywodraeth Cymru ein helpu. Allen ni ddim bod yn fwy gwerthfawrogol o’r help y maen nhw wedi’i roi i ni dros y blynyddoedd.”



**Dr Mark Waring**
Cyfarwyddwr Safle
**Pharmaron**

Cynnig gwasanaeth Gwaith Ymchwil a Datblygu arbenigol i’r diwydiant gwyddorau bywyd

“Rydym yn gwmni cemegol rhyngwladol sy’n cynnig gwasanaethau arbenigol i helpu i ddod o hyd i gyffuriau newydd ac mae gennym safleoedd yn Tsieina, Gogledd America ac yn y DU gan gynnwys Caerdydd.

Mae gennym weithlu gwych yma. Mae gennym bobl ifanc sy’n graddio o brifysgolion lleol yn ymuno â’r busnes sy’n hynod frwdfrydig ac rydym wedi cael llwyddiant arbennig o dda wrth recriwtio’n lleol, yn ogystal ag ym mhob rhan o’r DU ac Ewrop.

Rydym wedi cael cefnogaeth dda gan Gyngor Caerdydd sydd wedi’n helpu i sefydlu ein safle a chreu cysylltiadau gwerthfawr. Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydweithiau busnes da ar gyfer ein maes penodol ni ac mae hynny’n help mawr i ni.”



**David Jackson**
Cadeirydd
**SciTech**

Scitech. Perfect outcomes

Gwasanaethau Dylunio, Peirianneg, Adeiladu a Dilysu

"Rydym ni'n gwmni peirianneg arbenigol sy'n delio gyda diwydiannau gwyddorau bywyd o ymgynghori i ddylunio a pheirianneg. Rydym ni wedi ein hymsefydlu yn de-ddwyrain Lloegr yn bennaf gyda swyddfa yn Antwerp, ond mae gennym ni lawer o gleientiaid yng Nghymru a'r De-orllewin, rydym ni wedi agor oDavidffice yng Nghaerdydd.

Mae tîm Cyfoethogi Caerdydd yng Nghyngor Caerdydd wedi bod yn gefnogol iawn, ac wedi dangos i ni nifer o adeiladau a chyfleusterau yng Nghaerdydd lle y gallem ni symud o bosibl a

a gwnaethom ddarganfod eu bod yn rhagorol a bod rhanbarth Caerdydd yn lle gwych am hamdden, siopa a gweithio!"



**Mark Thomas**
Cyfarwyddwr Creadigol
**Celf Creative**

celf™

Asiantaeth greadigol gwasanaeth llawn

"Dim ond 7 awr o arfordir dwyreiniol yr Unol Daleithiau a 3 – 4 awr o gyfandir Ewrop, mae Caerdydd yn un o'r lleoliadau gorau o safbwynt busnes. Fel asiantaeth greadigol sy'n cynnig gwasanaeth llawn rydyn ni'n cydweithio â chleientiaid byd eang, busnesau newydd uchelgeisiol a sefydliadau rhyngwladol mawr. A ninnau'n arbenigo mewn strategaethau creadigol, hunaniaeth brand a chyfathrebu, hysbysebu, pacediadau, gwefannau a rhaglenni gwe, cyfryngau digidol ac animeiddio, i ni mae Caerdydd yn lleoliad delfrydol gyda chysylltiadau trafnidiaeth ardderchog sy'n cynnig porth i gyfleoedd busnes newydd.

Mae awydd mawr am dwf yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Edrychwch ar y nenlinell a nifer y craeniau adeiladu sydd i'w gweld yn y ddinas, mae'n amlwg bod Caerdydd yn datblygu o'r newydd.

O safbwynt busnes a barn bersonol, mae Caerdydd yn lle gwych i fod yn rhan ohono."

"Rhowch Gaerdydd ar eich rhestr fer. Mae gan ein dinas lawer i'w gynnig i chi!"

# GADEWCH I NI EICH HELPU I DYFU

Gall ein tîm buddsoddiad mewnol profiadol eich helpu i wneud busnes yng Nghaerdydd drwy gynnig pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer eich holl ymholiadau ynghylch ein dinas. Byddwn yn sicrhau y cynigir y gorau sydd gan y rhanbarth i'w gynnig i chi.

POBLOGAETH DINAS-RANBARTH CAERDYDD
**1.5 MILIWN**



LLYWODRAETH DDATGANOLEDIG SY'N CROESAWU BUSNES



MAE CAERDYDD **AR FRIG** RHESTR DINASOEDD CRAIDD Y DU O RAN EI HAPÊL I FUDDSODDWYR

FFYNHONNELL: COLLIERS INTERNATIONAL CHWILIWCH AM VALUE & REGIONAL RELATIVITY. GARAF 2017



Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau eich bod yn gallu symud i'r ddinas mor rhwydd â phosibl drwy gynnig pecyn cymorth busnes pwrpasol i chi a allai gynnwys:

- Aseinio rheolwr cyfrif mewnfuddsoddiad dynodedig i chi drwy gydol y broses a thu hwnt gan gynnig ôl-ofal parhaus i'ch helpu i sefydlu a thyfu eich busnes yng Nghaerdydd
- Gwaith ymchwil trylwyr pwrpasol gan gynnwys cymharu costau a meincnodi yn erbyn cynigion buddsoddi eraill i gynorthwyo â'ch achos busnes
- Bwrw ati i chwilio am eiddo ar eich rhan, eich cyflwyno i'n partneriaid eiddo masnachol a chynnig cyngor mewn cysylltiad â chostau a lleoliadau posibl
- Cynnig cyngor a chymorth gyda'r gwaith o nodi cymorth ariannol
- Cynnig cymorth gyda recriwtio a hyfforddiant gan ein Tîm i Mewn i Waith arbenigol
- Trefnu ymweliadau ymgynefino ar gyfer staff allweddol
- Eich cyflwyno i rwydweithio busnes lleol, canolfannau Ymchwil a Datblygu a Phrifysgolion
- Cynnig gwasanaethau statudol awdurdod lleol perthnasol megis cynllunio ac ardrethi busnes

## Cyllide

Gan fod rhannau o Gaerdydd yn cael budd o statws Ardal a Gynorthwyir, gall cymorth ariannol dewisol fod ar gael i fusnesau, yn dibynnu ar eu lleoliad yn y ddinas a maint y busnes h.y. nifer y staff a gyflogir.

Mae nifer o sefydliadau ariannol yng Nghaerdydd, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, yn cynnig arian masnachol ar ffurf benthyciadau o £1,000 i £5 miliwn, buddsoddiad ecwiti o £50,000 i £5 miliwn ar gyfer busnesau sefydledig, buddsoddiad ecwiti ar gyfer busnesau technoleg cam cynnar ac aeddfed, cyd-fuddsoddiad gyda banciau, cyllido torfol, grantiau, buddsoddwyr a benthycwyr eraill.

Mae'r holl waith ariannu yn ddewisol ac yn agored i'w drafod heb unrhyw hawl awtomataidd i gael cymorth ariannol.

## Chwilio am Eiddo

Mae pecynnau rhentu a chyfnodau di-rent deniadol yn rhan hanfodol o'r pecyn ariannol a chymorth sydd ar gael i'r sawl sy'n buddsoddi yng Nghaerdydd.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddinasoedd yn y DU, mae gan Gaerdydd safleoedd o ansawdd uchel a gofod swyddfa Gradd A sy'n eiddo i'r sector preifat a chyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys swyddfeydd a thir masnachol yng nghanol y ddinas ac yn yr Ardal Fenter yn ogystal â lleoliadau ar gyrion y ddinas megis

Porth Caerdydd a Llaneirwg. Mae gan Gyngor Caerdydd bortffolio o undebau technoleg / deori hefyd y gellir eu cynnig i fuddsoddwyr sy'n chwilio am lety tymor byr cyn symud i eiddo hirdymor.

## Cymorth Ôl-Fuddsoddi

Mae Dinas Caerdydd yn ymfalchïo yn y gwaith o edrych ar ôl ei buddsoddwyr. Â chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae tîm Cyfoethogi Caerdydd yn cynnig cymorth parhaus i fusnesau sefydledig. Mae gan bob buddsoddwr reolwr cyfrif dynodedig a fydd yn sicrhau eich bod yn parhau i allu manteisio ar gynlluniau cymorth ariannol, rhwydweithiau busnes ac adrannau Prifysgol perthnasol er mwyn sicrhau y bydd eich buddsoddiad yng Nghaerdydd yn parhau i lwyddo.

> "Rydym ni'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i helpu eich busnes i ffynnu yng Nghaerdydd"



Castell Caerdydd

# Cyfoethogi Caerdydd yw gwasanaeth buddsoddi mewnol am ddim a diduedd Cyngor Caerdydd

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Cyfoethogi Caerdydd
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

+44 (0) 29 2087 1966

invest@investincardiff.co.uk

Investincardiff.com

@CyfoethogiCaerdydd

Invest in Cardiff

Invest in Cardiff

Ymwadiad:
Diben y llyfryn hwn yw cynnig gwybodaeth i helpu pobl i wneud penderfyniadau busnes o ran p'un a fyddant yn buddsoddi ac yn gweithredu yng Nghaerdydd. Credwyd ar adeg cynhyrchu'r llyfryn fod ei gynnwys yn ddibynadwy, ond ni wneir na rhoddir unrhyw sylwadau na gwarant, yn ddatganedig nac yn oblygedig, gan Gyngor Caerdydd o ran cywirdeb y llyfryn, ei gyflawnrwydd na'i addasrwydd ar gyfer unrhyw ddiben. Yn benodol, ni ddylid ystyried unrhyw ran o'r cynnwys fel cyngor na fel gwahoddiad i brynu neu werthu sicrwydd, nwyddau neu unrhyw ffurf arall o offer ariannol. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan Gyngor Caerdydd am unrhyw golled na difrod, boed hynny o ganlyniad neu fel arall, a allai godi oherwydd neu mewn cysylltiad â'r llyfryn hwn.





INVEST IN
CARDIFF
CYFOETHOGI
CAERDYDD

Investincardiff.com

Invest in Cardiff

@CyfoethogiCaerdydd

Invest in Cardiff

CARDIFF
CAERDYDD

© Cyfoethogi Caerdydd, Cyngor Caerdydd 2019